**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1396
Ein cyf/Our ref MA/EM/05219/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

petitions@senedd.wales

09 Mai 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach dyddiedig 2 Ebrill at Jane Bryant AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar ynglŷn â Deiseb P-06-1396 - Cyflwyno trwydded e-sigaréts ar gyfer siopau e-sigaréts pwrpasol. Dyma fi'n ymateb gan fod y mater hwn yn rhan o'm mhortffolio i.

Fel sigaréts, gall shisha gynnwys nicotin, tar, carbon monocsid a metelau trwm megis arsenig a phlwm. Mae'r tocsinau hyn yn rhoi ysmygwyr Shisha mewn perygl o ddatblygu clefyd y galon a chylchrediad y gwaed, canserau, clefydau anadlol a heintiau anadlol, yn ogystal â dibyniaeth ar nicotin. Nid yw ysmygu shisha yn llai niweidiol nag ysmygu sigaréts.

Yn yr ymateb blaenorol i'r Pwyllgor Deisebau hwn ynghylch trwyddedu, dywedwyd ein bod wedi ymrwymo i weithredu pob mesur sydd ei angen i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol tybaco ar iechyd yng Nghymru, ac i wneud popeth o fewn ein gallu i atal pobl ifanc rhag defnyddio fêps. Mae hynny'n cynnwys ystyried ymhellach y dystiolaeth sy'n ymwneud â thybaco a chynhyrchion nicotin eraill.

Gosodwyd y Bil Tybaco a Fêps gerbron Senedd San Steffan ar 20 Mawrth 2024. Bydd y Bil yn creu'r genhedlaeth ddi-fwg gyntaf drwy gyflwyno mesurau i atal pobl rhag dechrau ysmygu yn y lle cyntaf a mynd yn gaeth i gynhyrchion tybaco, yn ogystal ag atal cynhyrchion fepio rhag cael eu targedu'n fwriadol at blant. Bydd y mesurau craidd yn y Bil yn gwneud y canlynol:

a. Ei gwneud hi'n drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009;
b. Ei gwneud yn drosedd gwerthu pob cynnyrch fepio (nicotin a di-nicotin) i unrhyw un o dan 18 oed;
c. Darparu pwerau i leihau apêl ac argaeledd fêps (nicotin a di-nicotin) i blant;
d. Cryfhau gweithgarwch gorfodi i gefnogi gweithredu'r mesurau uchod, ac ehangu'r troseddau y gellir defnyddio hysbysiadau cosb benodedig ar eu cyfer.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r holl gynhyrchion tybaco fel tybaco wedi'i gynhesu, sigarau a shisha wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon gan fod pob cynnyrch tybaco yn niweidiol ac nid oes lefel ddiogel ar gyfer eu defnyddio. Mae tynnu'r llinell mewn perthynas â thybaco yn erbyn cynhyrchion nad ydynt yn dybaco yn cynnig gwahaniaeth clir y bydd rheoleiddwyr, busnesau a'r cyhoedd yn ei ddeall.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care